



## **Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru**

**Dydd Llun 14 Chwefror 2022**

2.00 pm  
Cyfarfod Rhith

### **Yn bresennol:-**

Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion (Cadeirydd) **(Y  
Cynghorydd EAG)**

Aggie Caesar-Homden, Tyfu Canolbarth Cymru **(ACH)**

Andrew Cornish, Coleg Sir Gar **(AC)**

Ann Elias, Cyngor Sir Ceredigion **(AE)**

Ann Watkin, Llywodraeth Cymru **(AW)**

Arwyn Watkins OBE, Hyfforddiant Cambria **(ArW)**

Carwyn Jones-Evans, Cyngor Sir Ceredigion **(CJE)**

Cathy Martin, Tyfu Canolbarth Cymru **(CMn)**

Ceri Stephens, Grŵp Gweithgynhyrchu Canolbarth Cymru **(CS)**

Claire Miles, Tyfu Canolbarth Cymru **(CMs)**

Y Cynghorydd Dafydd Edwards, Cyngor Sir Ceredigion **(Y Cynghorydd DE)**

Y Cynghorydd Rhodri Evans, Cyngor Sir Ceredigion **(Y Cynghorydd RE)**

David Madge **(DM)**

David Owen, Cyngor Sir Ceredigion **(DO)**

Diane Reynolds, Cyngor Sir Powys

Dr. Rhodri Llwyd Morgan, Prifysgol Aberystwyth **(RLIM)**

Eifion Evans, Cyngor Sir Ceredigion **(EE)**

Gareth Jones, Cyngor Sir Powys **(GJ)**

Gareth Marston, Cyngor Sir Ceredigion **(GM)**

Gary Mitchell, PAVO **(GMI)**

Gavin Bown, Cyfoeth Naturiol Cymru **(GB)**

Hywel Davies, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant **(HD)**

Lowri Gwilym, CLILC **(LG)**

Marie Evans, Cyngor Sir Ceredigion **(ME)**

Mark Dacey, Grŵp Colegau NPTC **(MD)**

Nia Williams **(NW)**

Peter Davies **(PD)**

Rowland Rees-Evans, Cyngor Sir Ceredigion **(RRE)**

Sarah Groves-Philips, Cyngor Sir Ceredigion **(SGP)**

Stacey-Jayne Oakham, Tyfu Canolbarth Cymru **(SJO)**

Val Hawkins, Twristiaeth Canolbarth Cymru **(VH)**

Darparwyd y gwasanaeth Cyfieithu ar y pryd yn y cyfarfod hwn gan Siân Jones o  
Cyfaith.

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i'r cyfarfod. Dywedodd mai hwn fyddai ei

chyfarfod olaf yn y gadair gan na fyddai'n sefyll fel Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion yn dilyn y cyfarfod. Roedd hi'n falch iawn bod Bargen Twf Canolbarth Cymru wedi cael ei llofnodi gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar 13 Ionawr.

<p><b>1.</b></p>	<p><b>Ymddiheuriadau</b>  Cafwyd ymddiheuriadau gan:-  Arwyn Davies, Cyngor Sir Ceredigion  Y Cynghorydd Rosemarie Harris, Arweinydd Cyngor Sir Powys (Is-Gadeirydd)  Y Cynghorydd Phyl Davies, Cyngor Sir Powys  Doug Hughes, Penseiri Hughes  Dr Caroline Turner, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Powys  Glenn Bowen, Canolfan Cydweithredol Cymru  Nick Venti, PAVO  Nigel Brinn, Cyngor Sir Powys  Peter Howells, NFU Cymru  Peter Skitt, GIG  Yvonne Connolly, Llywodraeth y DU</p>
<p><b>2.</b></p>	<p><b>Cofnodion</b></p> <p>Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 16 Medi 2021 yn gofnod cywir.</p>
<p><b>3.</b></p>	<p><b>Bargen Twf Canolbarth Cymru – Diweddariad am y Cynnydd</b></p> <p>Cafwyd diweddariad gan Cathy Martin am y cynnydd a sicrhawyd ers y llofnodwyd Cytundeb Terfynol y Fargen Twf ar 13 Ionawr 2022. Roedd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn rhoi prosesau yn eu lle nawr i ddatblygu'r portffolio yn 2022.</p> <p>Rhaglen Ddigidol: roedd achos busnes yn cael ei gwblhau gan y tîm a'r grŵp llywio. Roedd trefniadau yn mynd rhagddynt i sefydlu trefniadau llywodraethu rhaglen, a chynllun pan fyddai modd adolygu'r achos busnes a'i gymeradwyo gan y Bwrdd.</p> <p>Rhaglen Safleoedd a Mangreoedd: drafftwyd rhaglen amlinellol a chafwyd sgysiau gyda tîm eiddo Llywodraeth Cymru. Ceir galw sylweddol am ddatblygiad safleoedd a mangreoedd, fodd bynnag, ceir rhwystrau sylweddol i'w goresgyn mewn partneriaeth gyda Llywodraethau a'r sector preifat. Mae'r gwaith wedi cychwyn i gyflymu'r datblygiad ar y rhaglen hon.</p> <p>Prosiectau: gofynnwyd i'r holl brosiectau ar restr fer gyfredol SPBC i gyflwyno Achosion Amlinellol Strategol (SOCs) o ddiwedd mis Ionawr i fis Mai, i'w hadolygu gan PoMO. Yna, byddai'r tîm yn asesu amserlenni datblygu a ragwelir ac amseriad yr adeg pan fyddai modd i Fwrdd TCC a'r Grŵp Cynghori Economaidd adolygu'r cynigion a gwneud sylwadau amdanynt.</p> <p>Dywedodd y Cadeirydd ei bod hi a Chyng Rosemarie Harris wedi bod yn cyfweld darpar aelodau'r Grŵp Cynghori Economaidd.</p>

<p><b>4.</b></p>	<p><b>Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol – Diweddariad am y Cynnydd</b></p> <p>Rhoddodd Aggie Caesar-Homden ddiweddariad am waith y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Roedd y Bartneriaeth wedi parhau i sicrhau cynnydd da wrth weithio gydag arweinwyr busnes a rhanddeiliaid ar draws y rhanbarth er mwyn deall y ddarpariaeth sgiliau ac anghenion y farchnad lafur, er mwyn gyrru buddsoddiad sy'n bodloni gofynion cyflogwyr a'r gweithle.</p> <p>Adroddodd ei bod yn gweithio gyda Data Cymru i ddatblygu Arsyllfa Sgiliau Canolbarth Cymru ac i ddarparu cymorth dadansoddi data. Yn ogystal, roedd Data Cymru yn gweithio gydag RSP i ddatblygu adroddiad Sgiliau Gwyrdd. Roedd yr RSP yn ymwneud gyda Gwarant Pobl Ifanc Llywodraeth Cymru sy'n ymgysylltu gyda busnesau ac sy'n adlewyrchu eu safbwyntiau.</p> <p>Gan ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd, dywedodd ACH nad yw hi wedi cael unrhyw wybodaeth bellach am rôl RSP mewn perthynas â sgiliau ac addysg bellach eto.</p>
<p><b>5.</b></p>	<p><b>Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru – Llwyddiannau – Cyflwyniad</b></p> <p>Rhoddodd Claire Miles gyflwyniad am gyflawniadau'r Bartneriaeth tan y llofnodwyd Bargen Twf Canolbarth Cymru ar 13 Ionawr. Bu hyn yn ffrwyth llafur ymdrech anferthol gan dîm o bartneriaid a'r rhanddeiliaid a diolchodd y Cadeirydd i bawb a fu ynghlwm â hyn am eu cyfraniadau wrth gyrraedd y pwynt hwn.</p>
<p><b>6.</b></p>	<p><b>Diweddariadau Busnes</b></p> <p><b>6.1 Rhaglen Buddsoddi Adfywio wedi'i Dargedu</b>  Adroddodd Gareth Jones am Fenter Trawsnewid Trefi. Cymeradwywyd 13 prosiect gyda chyfanswm o £1.4M ar ffurf grant wedi'i ymrwymo. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i nodi prosiectau strategol ar gyfer y dyfodol. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno caniatáu cyllid ar gyfer prosiectau dan Gronfa Buddsoddi mewn Eiddo Canol Tref i gael ei dynnu i lawr ar yr amod bod y gwariant yn cael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Llwyddwyd i sicrhau grant pellach o £185,000 gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu a gweithredu datrysiadau digidol a hyfforddiant er mwyn cynorthwyo wrth gynyddu nifer yr ymwelwyr, cynorthwyo busnesau a'r profiad i ymwelwyr ac er mwyn ychwanegu gwerth i fuddsoddiad a wnaethpwyd eisoes mewn canol trefi.</p> <p><b>6.2 Adroddiad y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol</b>  Rhoddodd Claire Miles ddiweddariad am waith y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol. Roedd trafodaethau wedi parhau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch buddsoddiad rhanbarthol yn y dyfodol. Roedd yr Arweinwyr wedi mynychu cyfarfod pellach o'r Fforwm Strategol ar gyfer Buddsoddiad Rhanbarthol yng Nghymru hefyd, a gynhaliwyd ar 17 Ionawr, lle y trafodwyd polisi arloesi yn y dyfodol. Roedd cyllideb Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021 wedi rhoi rhyw syniad o'r ffaith y bydd</p>

rhai gweithrediadau sylfaenol a ariannir gan ESIF ac sy'n cyflawni blaenoriaethau allweddol (megis Prentisiaethau a Busnes Cymru) yn parhau ar ôl oes y rhaglen gyfredol efallai, ond nid oedd yn glir ar ba raddfa y byddai hyn ac ym mha ffurf. Wrth i'r rhaglenni ESIF cyfredol gychwyn ar eu blynyddoedd olaf, byddai RET Canolbarth Cymru yn parhau i weithio gyda gweithrediadau cenedlaethol a rhanbarthol arwyddocaol i fapio strategaethau ymadael a gwaddol disgwylidig ymyriadau a ariannir gan ESIF yn y rhanbarth er mwyn pennu bylchau posibl mewn cyllid a darpariaeth yn y dyfodol.

Roedd y Tîm yn cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Roedd hi'n debygol y byddai'r gronfa yn cael ei strwythuro ar sail tair blaenoriaeth fuddsoddi allweddol, sef Cymunedau a Lle; Pobl a Sgiliau a Chynorthwyo Busnesau Lleol.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Rhwydwaith Cyflogadwyedd Strategol Canolbarth Cymru ar 11 Chwefror. Prif nod y rhwydwaith oedd dwyn darparwyr hyfforddiant cyflogadwyedd presennol a rhanddeiliaid perthnasol sy'n gweithio gyda buddiolwyr 14 oed a throsodd ynghyd i sicrhau bod y ddarpariaeth gyfredol yn gweithredu'n gyson ac yn gweithio ar lawr gwlad.

### 6.3 Gweithgor Cysylltedd a Seilwaith

Cafwyd diweddariad gan Ann Elias am faterion trafndiaeth strategol sy'n effeithio ar y rhanbarth ac am waith y Gweithgor Cysylltedd a Seilwaith. Cadarnhaodd bod cynlluniau gwella ffordd Llangurig a Llanon wedi cael eu hoedi gan benderfyniad Llywodraeth Cymru i rewi prosiectau nes iddynt gael eu hasesu gan y Panel Adolygu Ffyrdd.

## 7. **Diweddariad gan y Llywodraeth(au)**

### 7.1 Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol LIC a materion rhanbarthol cysylltiedig

Adroddodd Ann Watkin am y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol a gyhoeddwyd ar 22 Rhagfyr 2021, a oedd yn rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygiad economaidd sy'n cynnwys ffocws rhanbarthol. Roedd LIC wedi gweithio gyda phartneriaid ym mhob rhanbarth gan gynnwys Awdurdodau Lleol a chyrff rhanbarthol cysylltiedig, i gyd-ddylunio dull gweithredu sy'n seiliedig ar le tuag at ddatblygu economaidd. Roedd cyswllt agos gyda blaenoriaethau'r Fargen Twf.

Ceisiodd AW gymeradwyaeth y Bartneriaeth ar gyfer y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ac am ganiatâd i ddefnyddio ei logo.

Nododd y Cadeirydd bod y Fframwaith yn cyd-fynd yn dda gyda strategaeth datblygu economaidd Cyngor Sir Ceredigion. Nododd GJ bod Cabinet Cyngor Sir Powys Cabinet wedi cymeradwyo'r Fframwaith.

### **PENDERFYNIAD**

#### **i. Cymeradwyo Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ddrafft**

	<p style="text-align: center;"><b>Llywodraeth Cymru ar gyfer Canolbarth Cymru.</b></p> <p>ii. <b>Cytuno bod logo Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru yn cael ei ychwanegu i'r ddogfen derfynol a gyhoeddir.</b></p> <p>Dywedodd AW y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda swyddogion o'r ddau awdurdod ar ddigwyddiad lansio, gan gadw mewn cof y cyfnod cyn yr etholiad.</p> <p><b>7.2 <u>Diweddariad gan Lywodraeth y DU</u></b></p> <p>Roedd swyddog Llywodraeth y DU wedi ymddiheuro na fyddai'n bresennol, felly gohiriwyd yr eitem hon.</p>
<b>8.</b>	<p><b>Diweddariadau Rhanbarthol Ehangach</b></p> <p><b>8.1 <u>Diweddariad am y Rhaglen Ddigidol</u></b></p> <p>Nododd David Owen bod drafft terfynol Achos Busnes y Rhaglen wedi cael ei gwblhau ac y byddai'n cael ei gyflwyno i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru ar 11 Mawrth i'w gymeradwyo.</p> <p><b>8.2 <u>Twristiaeth</u></b></p> <p>Cafodd y Bartneriaeth ddiweddariad am Astudiaeth Dichonolrwydd Twristiaeth Tyfu Canolbarth Cymru. Adroddir canfyddiadau'r astudiaeth yn ystod y cyfarfod nesaf.</p>
<b>9.</b>	<p><b>Unrhyw fater arall</b></p> <p>Roedd y Cadeirydd yn dymuno pob llwyddiant i'r Bartneriaeth yn y dyfodol. Diolchodd cydweithwyr i Gynghorydd ap Gwynn am ei harweinyddiaeth a'i hymdrechion a arweiniodd at lofnodi Bargen Twf Canolbarth Cymru gyda Chynghorydd Rosemarie Harris.</p>
<b>10.</b>	<p><b>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</b></p> <p>Dydd Llun 30 Mai 2022</p>